

Ein cynllun strategol ar gyfer 2025 i 2030

Sut fyddwn ni'n gwella
gwasanaethau gofal yng
Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o 'Gynllun Strategol 2025-2030'.

Ebrill 2025

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help o hyd i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Gwefan: ciw@gov.wales

Ffôn: 0300 7900 126



Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru](#) wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Deall gan ddefnyddio Photosymbols. [I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.](#)

[Rhif trwydded Photosymbols 403527247](#)

Cynnwys

Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud	4
Sut rydyn ni'n gweithio.....	7
Beth ydy'r cynllun yma	12
Ein nodau ar gyfer 2025 i 2030.....	14
Sicrhau	16
Gwella	22
Dylanwad	26
Mwy o wybodaeth	29

Pwy ydyn ni a beth rydyn ni'n ei wneud



Ni ydy Arolygiaeth Gofal Cymru.

Rydyn ni'n gweithio i wneud yn siŵr bod gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant a chwarae yng Nghymru yn:



- Diogel.



- Ansawdd da.



- Dilyn y gyfraith a'r rheolau.

Rydyn ni'n gwneud 3 prif beth:



- Cofrestru gwasanaethau – Rydyn ni'n penderfynu pwy sy'n cael rhedeg gwasanaethau gofal.




- Archwilio gwasanaethau – Rydyn ni'n ymweld ac yn edrych ar pa mor dda ydyn nhw. Mae'r ymweliad yn cael ei alw yn arolygiad.



- Gweithredu – Rydyn ni'n gweithredu pan nad ydy gwasanaeth yn ddigon da.

Rydyn ni yn:



- Helpu gwasanaethau i wella.



- Gwrando ar bryderon pobl.



- Cefnogi pobl a staff.

Sut rydyn ni'n gweithio

Rydyn ni'n gweithio gyda:



- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a gofal plant.



- Staff sy'n darparu gofal.



- Pobl sy'n rheoli ac yn dewis gwasanaethau.

Rydyn ni'n addo:



- Helpu i wneud gwasanaethau yn fwy diogel ac yn well.



- Cefnogi gwasanaethau i wella.



- Siarad i fyny helpu i wneud pethau'n well i bawb.

Ein gwerthoedd

Dyma'r pethau pwysig sy'n arwain ein gwaith. Ein gwerthoedd ydy:



- Rydyn ni'n garedig ac yn hawdd i siarad â.



- Rydyn ni'n trin pawb yn deg ac yn cynnwys pawb.



- Rydyn ni'n onest. Mae pobl yn gallu ymddiried ynom ni.



- Mae gennym ni sgiliau, gwybodaeth a syniadau da.



- Rydyn ni'n gwrando ar bobl ac yn gwerthfawrogi beth maen nhw'n ei ddweud.

Ein hegwyddorion




Egwyddorion ydy'r rheolau sy'n arwain sut rydyn ni'n gweithio fel arolygwyr.

Ein hegwyddorion ydy:



- Rhoi pobl yn gyntaf.




- Defnyddio gwybodaeth glir i gynllunio ein gwaith.



- Edrych ar risgiau a newid cynlluniau pan mae angen.




- Gweithio gyda phobl a sefydliadau eraill.



- Helpu gwasanaethau i wella a rhoi cynnig ar syniadau newydd.



- Dysgu o beth rydyn ni'n ei weld.



Rydyn ni'n dilyn **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** o ran sut rydyn ni'n gweithio. Mae'r ddeddf yma yn helpu i wneud Cymru yn wlad well i fyw ynddi nawr ac yn y dyfodol.

Beth ydy'r cynllun yma



Mae'r rhan fwyaf o ofal yng Nghymru yn dda. Ond rydyn ni eisiau iddo fod hyd yn oed yn well yn y 5 mlynedd nesaf.


Rydyn ni eisiau:



- Pobl i gael gwell gofal.



- Ein harchwiliadau i wella.



- Gwasanaethau i barhau i ddysgu a gwella.

Mae'r cynllun yma yn dweud:

- Beth rydyn ni am ei wneud erbyn y flwyddyn 2030.
- Sut fyddwn ni'n ei wneud.



Beth rydyn ni'n ei feddwl wrth wasanaethau a phobl



Pan fyddwn ni'n dweud **gwasanaethau**, rydyn ni'n meddwl gwasanaethau gofal, gofal plant a gwasanaethau chwarae rydyn ni'n eu cofrestru neu'n eu harchwilio.



Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gan gynghorau lleol a **CAFCASS Cymru**. Mae hwn yn grŵp sy'n helpu plant mewn achosion llys teulu.

Pan fyddwn ni'n dweud **pobl**, rydyn ni'n meddwl:



- Plant, pobl ifanc, ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal plant neu chwarae.



- Eu gofalmwyd a'u teuluoedd.




Ein nodau ar gyfer 2025 i 2030

Mae gennym 3 nod mawr ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:



Sicrwydd – Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn helpu pobl i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Gwella – Helpu gwasanaethau i wneud yn well a gwella ein gwaith ein hunain.



Dylanwad – Rhannu beth rydyn ni'n ei ddysgu i helpu eraill. Bod yn enw mae pobl yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.




Fe fydd y nodau yma yn arwain beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gweithio gydag eraill.

Edrych ar ein cynnydd



Fe fyddwn ni'n edrych ar sut rydyn ni'n gwneud dros y 5 mlynedd nesaf.



Rydyn ni'n edrych ar rai pethau yn barod ac fe fyddwn ni'n dechrau edrych ar bethau newydd. Rydyn ni eisiau gwella wrth edrych ar ein gwaith. Mae'n ein helpu i gyrraedd ein nodau.

Sut fyddwn ni'n cyrraedd ein nodau



Rydyn ni wedi gwneud rhestr o bethau fyddwn ni'n eu gwneud i gyrraedd ein nodau. Fe fyddwn ni'n edrych ar y rhestr yma yn 2027 i weld os oes angen newid unrhyw beth.



Sicrhau

Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn helpu pobl i wneud beth sy'n bwysig iddyn nhw.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



1. Canolbwyntio ar ddiogelwch ac ansawdd gofal. Fel bod pobl yn ddiogel, yn hapus ac yn cael y gofal cywir.

Fe fyddwn ni yn:



- Dal ati i archwilio gwasanaethau.




- Siarad mwy â phobl yn ystod arolygiadau.



- Rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o edrych ar sut mae gwasanaethau yn gweithio.



- Newid y ffordd rydyn ni'n cofnodi sut rydyn ni'n delio â chwynion.



2. Ysgrifennu adroddiadau a gwybodaeth ddefnyddiol glir, gan gynnwys yn Hawdd ei Ddeall. Fel bod pawb yn gallu deall beth rydyn ni'n ei wneud a beth rydyn ni'n ei ddarganfod.

Fe fyddwn ni yn:



- Gwneud ein hadroddiadau yn hawdd eu deall.



- Gofyn i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ein helpu i wella adroddiadau.



3. Adeiladu tîm cryf ac amrywiol . Mae hyn yn meddwl cynnwys pobl o wahanol gefndiroedd.

Fe fyddwn ni yn:



- Diweddarau sut rydyn ni'n llogi staff. Llogi mwy o siaradwyr Cymraeg a phobl o wahanol gefndiroedd.



- Parhau i ddefnyddio ein cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r cynllun yma yn gwneud yn siŵr ein bod yn trin pawb yn deg.



4. Gweithio'n dda gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau a phobl sy'n darparu ac yn dewis gwasanaethau.

Fe fyddwn ni yn:




- Rhoi cyngor clir i'r gwasanaethau gofal ar sut i gofrestru eu gwasanaeth yng Nghymru.

Fe fyddwn ni'n gwybod bod hyn yn gweithio os:



- Rydyn ni'n graddio mwy o wasanaethau yn dda neu yn ardderchog.



- Mae gwasanaethau yn gwella ar ôl i ni eu harchwilio.



- Mae pobl yn dweud bod ein hadroddiadau arolygu yn ddefnyddiol.



- Mae mwy o bobl yn llenwi ffurflenni adborth am eu gofal.



- Mae ein tîm yn cynnwys mwy o bobl o wahanol gefndiroedd.



- Mae staff yn dweud mewn arolygon eu bod yn hapusach yn y gwaith.




- Mae mwy o'n staff yn siarad Cymraeg.



- Rydyn ni'n cael mwy o adborth da am ein gwaith.

Gwella



Gwasanaethau cymorth i wneud yn well a gwella ein gwaith ein hunain.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



1. Dathlu gofal da a helpu gwasanaethau i wella.

Fe fyddwn ni yn:



- Dal ati i edrych ar sut rydyn ni'n penderfynu os ydy gwasanaethau yn dda ai peidio.



- Rhannu syniadau am beth sy'n gweithio'n dda mewn gwasanaethau. Dweud wrth bobl am gyngor, digwyddiadau a hyfforddiant sydd yn gallu helpu gwasanaethau i wella.



2. Cefnogi gweithleoedd teg a da mewn gofal.

Fe fyddwn ni yn:

- Gweithio gyda **Gofal Cymdeithasol Cymru** i wneud yn siŵr bod gwasanaethau yn lleoedd da a theg i weithio ynddyn nhw.



3. Gwella gwaith tîm a dysgu, y tu mewn a'r tu allan i'n sefydliad.

Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud cynllun 2 flynedd ar gyfer gweithio gydag eraill, fel **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** ac **Estyn**. Rhannu syniadau a gwybodaeth i helpu ein gwaith i fod yn well.





4. **Defnyddio offer digidol i wneud ein gwaith yn well ac yn haws. Mae hyn yn meddwl cyfrifiadur a meddalwedd ar-lein.**

Fe fyddwn ni yn:



- Gwneud cynllun i helpu ein staff i wella eu sgiliau digidol.



- Defnyddio offer digidol i helpu pobl i ddewis gwasanaethau gofal a'i gwneud hi'n haws i ddarparwyr gwasanaeth siarad â ni.

Fe fyddwn ni'n gwybod bod hyn yn gweithio os:



- Rydyn ni'n cynnal mwy o ddigwyddiadau dysgu a hyfforddi bob blwyddyn.



- Rydyn ni'n rhannu mwy o enghreifftiau o sut mae gofal da yn edrych.



- Mae pobl yn rhoi adborth da am ein gwaith.



- Rydyn ni'n gwneud mwy o arolygiadau ar y cyd â sefydliadau eraill.



Dylanwad

Rhannu beth rydyn ni'n ei ddysgu i helpu eraill.
Bod yn enw mae pobl yn ei adnabod ac yn
ymddiried ynddo.

Beth fyddwn ni'n ei wneud



1. Helpu mwy o bobl i wybod beth rydyn ni'n ei wneud a sut rydyn ni'n gallu helpu.




Fe fyddwn ni yn:

- Gwneud cynllun i ddweud wrth bobl am ein gwaith.



2. Gwrando ar bobl sy'n defnyddio ac yn gweithio mewn gwasanaethau gofal.



Fe fyddwn ni yn:

- Diweddararu ein **cynllun ymgysylltu** i gynnwys pobl yn ein gwaith mewn gwahanol ffyrdd.



3. Bod yn deg ac yn onest pan fyddwn ni'n adrodd am ofal yng Nghymru.



Fe fyddwn ni yn:

- Rhannu beth rydyn ni'n ei ddarganfod, hyd yn oed os ydy hynny'n dangos problemau.



4. Gweithio gyda sefydliadau eraill a rhannu syniadau i wella gofal i bobl.



Fe fyddwn ni yn:

- Defnyddio beth rydyn ni'n ei wybod i weithio'n well gydag eraill.

- Helpu **Gofal Cymdeithasol Cymru** i gasglu gwybodaeth am weithwyr gofal.

Fe fyddwn ni'n gwybod bod hyn yn gweithio os:



- Mae mwy o bobl yn cysylltu â ni neu'n rhannu beth maen nhw'n feddwl.



- Mae mwy o bobl yn ymweld â'n gwefan.



- Mae mwy o bobl yn ymuno â'n postiadau cyfryngau cymdeithasol.



- Rydyn ni'n dod o hyd i ffyrdd newydd o gynnwys pobl yn ein gwaith.



- Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth gyda **Gofal Cymdeithasol Cymru**.



- Mae pobl yn rhoi adborth da ar ôl digwyddiadau dysgu.

Mwy o wybodaeth

Cysylltwch â ni drwy:



Swyddfa:

Arolygiaeth Gofal Cymru

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ



Ffôn: 0300 7900 126



E-bost: AGC@llyw.cymru